



“Sefyllfa argyfyngus”

Yr angen i fynd ati ar frys i wella cymorth i ofalwyr di-dâl

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ebrill 2026)

28/09/2026

Ym mis Ebrill 2026, cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ynglŷn â'i ymchwiliad i wella cymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'r adroddiad yn cynnwys 35 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	4
2.	Ymatebion i'r Argymhellion.....	5
	Argymhelliad 1.....	5
	Argymhelliad 2.....	6
	Argymhelliad 3.....	7
	Argymhelliad 4.....	7
	Argymhelliad 5.....	8
	Argymhelliad 6.....	9
	Argymhelliad 7.....	9
	Argymhelliad 8.....	10
	Argymhelliad 9.....	11
	Argymhelliad 10.....	12
	Argymhelliad 11.....	12
	Argymhelliad 12.....	13
	Argymhelliad 13.....	13
	Argymhelliad 14.....	14
	Argymhelliad 15.....	14
	Argymhelliad 16.....	15
	Argymhelliad 17.....	16
	Argymhelliad 18.....	16
	Argymhelliad 19.....	17
	Argymhelliad 20.....	17
	Argymhelliad 21.....	18
	Argymhelliad 22.....	18
	Argymhelliad 23.....	18
	Argymhelliad 24.....	19
	Argymhelliad 25.....	20
	Argymhelliad 26.....	21
	Argymhelliad 27.....	21

Argymhelliad 28.....	22
Argymhelliad 29.....	23
Argymhelliad 30.....	23
Argymhelliad 31.....	24
Argymhelliad 32.....	24
Argymhelliad 33.....	25
Argymhelliad 34.....	25
Argymhelliad 35.....	26

1. Cyflwyniad

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu hadroddiad ar wella cymorth i ofalwyr di-dâl. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

2. Ymatebion i'r Argymhellion

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio gyda gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymorth i ofalwyr er mwyn cynllunio a hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo'r cysyniad o "ofalwyr di-dâl," eu hannog i hunanadnabod, a rhoi cyhoeddusrwydd i sut i gael cymorth. Dylai gynnwys allgymorth drwy feddygfeydd, ysbytai, fferyllfeydd, ysgolion, gweithleoedd, a lleoliadau cymunedol (gan gynnwys lleoedd y mae pobl hŷn a chymunedau ethnig leiafrifol yn eu mynychu).

Ymateb: Derbyn

Mae ein Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr ar gyfer 2026/27 wedi datblygu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn lleoliadau cymunedol, ac mae agwedd arbennig ar y rhaglen yn canolbwyntio ar ofalwyr hŷn.

Rhoddwyd arian i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddarparu ymgyrch 'ymwybyddiaeth y cyhoedd' dros gyfnod o bythefnos yn ystod mis Mai/Mehefin 2026. Llwyddodd y rhaglen i ragori ar dargedau perfformiad allweddol a chafwyd mewnwelediad o ran ymgysylltu â chynulleidfaoedd er mwyn gallu esgor ar ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymgyrch gyfathrebu ehangach yn ymwneud ag Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, y bwriedir ei chynnal cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Caiff y Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr ei chyflawni ar ran Llywodraeth Cymru gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Gofalwyr Cymru ac Age Cymru. Ar hyn o bryd, mae model cymunedol yn cael ei dreialu. Y diben yw gwella ymwybyddiaeth a dod o hyd i ofalwyr yn lleol, ynghyd â phrofi model y gellir ei ehangu a'i fabwysiadu'n ehangach. Bydd staff a gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd, hybiau cymunedol a mannau cynnes yn cael hyfforddiant a gwybodaeth i'w cynorthwyo i nodi gofalwyr a chyfeirio sgysiau'n effeithiol.

Mae yna botensial i ehangu'r cynllun peilot cyfredol ledled Cymru, gan weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol.

Hefyd, rydym yn ariannu gwaith i adnabod gofalwyr ifanc a chydgynghyrchu adnodd gyda gofalwyr ifanc i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth mewn lleoliadau addysg a chymunedol. Ein bwriad yw cefnogi gweithgarwch pellach, a gyd-ddylunnir gyda'n Bwrdd Cyngchori Gofalwyr Ifanc, i helpu gofalwyr ifanc i hunanadnabod a chodi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau perthnasol o'r gymuned.

Mae ein Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr hefyd yn darparu adnoddau hyfforddi dwyieithog ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn eu galluogi i adnabod gofalwyr a darparu gwell cymorth cychwynnol. Lluniwyd nifer o fodiwlau e-ddysgu penodol ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol, myfyrwyr a staff mewn gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, gweithwyr cymunedol a gwirfoddolwyr. Mae modiwlau hyfforddi newydd wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a disgwylir iddynt gael eu lansio cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y gweithwyr proffesiynol hyn yn cynnwys optometryddion, podiatryddion, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, a deietegwyr. Mae modiwl penodol yn canolbwyntio ar weithio gyda gofalwyr mewn cymunedau ethnig lleiafrifol.

Yn olaf, mae'r Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn datblygu trefniadau i arddangos gwybodaeth ar fagiau fferyllfeydd. Bydd hyn yn helpu gofalwyr di-dâl i hunanadnabod, a bydd dolenni'n cael eu darparu i'w cyfeirio at wybodaeth a ffynonellau cymorth.

Argymhelliad 2

Er mwyn hyrwyddo nodi gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau iechyd yn y maes gofal sylfaenol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried ailgyflwyno cymhellion wedi'u targedu i ofal sylfaenol i nodi gofalwyr a'u cyfeirio at wybodaeth a chymorth priodol.

Er mwyn hyrwyddo'r arfer o ganfod gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau gofal iechyd sylfaenol, dylai llywodraeth newydd Cymru ystyried ailgyflwyno mentrau penodol ar gyfer gofal sylfaenol er mwyn canfod gofalwyr a'u cyfeirio at wybodaeth a chymorth priodol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Datblygiad allweddol eleni fu creu modiwl hyfforddi ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 1. Bwriad y modiwl hwn yw cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i weithio ar draws lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae gan hyn oll y potensial i helpu amrywiaeth eang o ymarferwyr i nodi gofalwyr yn well, ynghyd â gwella'u hymwybyddiaeth o ofalwyr.

Sylweddolwn y byddai gweithgarwch 'canfod a chyfeirio' systematig ledled lleoliadau gofal sylfaenol yn esgor ar waith ychwanegol i gontractwyr, ac y gall fod angen cyflwyno mentrau penodol i ategu hyn oll ac i ysgogi dulliau gweithredu cyson.

Fel rhan o waith parhaus ar ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol yn y dyfodol, byddwn yn ystyried pa mor ymarferol fyddai cyflwyno trefniadau o'r fath. Byddai

angen i unrhyw gynigion sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol ar gael i ofalwyr y deuir o hyd iddynt, a byddai'r cynigion o dan sylw yn amodol ar fforddiadwyedd, y gallu i'w cyflawni, a chytundeb drwy drafodaethau contractiol pan fo angen.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog byrddau iechyd i sicrhau bod gan bob ysbyty drefniadau ar waith, fel swyddogion cymorth i ofalwyr, i nodi gofalwyr yn ystod apwyntiadau cleifion allanol, pan fyddant yn derbyn cleifion mewnol ac wrth baratoi ar gyfer rhyddhau cleifion, ynghyd â gweithdrefnau clir i gynnwys a hysbysu'r gofalwr ar bob cam.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn parhau i roi cyllid gwerth £1 miliwn i fyrddau iechyd i'w helpu i nodi gofalwyr a darparu cymorth cychwynnol iddynt mewn ysbytai. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty yn nodi pa mor bwysig yw cynnwys gofalwyr yn gynnar yn y broses wrth gynllunio i ryddhau cleifion o ysbytai, a dylai pob ysbyty fod â mynediad at Wasanaeth Cymorth i Ofalwyr, gyda'r staff yn gallu atgyfeirio gofalwyr i gael cymorth. Mae gan fyrddau iechyd ddyletswyddau ehangach o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Llesiant, darparu gwybodaeth a hyrwyddo arferion ataliol, sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau tuag at ofalwyr di-dâl. Cynhwysir rhagor o wybodaeth am Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty yn ein hymateb i Argymhelliad 9.

Argymhelliad 4

Dylai pob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ofalwyr, er mwyn eu galluogi i adnabod yr arwyddion bod rhywun yn ofalwr di-dâl ac ymateb yn briodol i hynny. Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio ar draws portffolios i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn.

Ymateb: Derbyn

Caiff y cyllid a roddwn tuag at hyfforddi amrywiaeth gynyddol o wirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal a chymunedol ei nodi yn ein hymateb i Argymhelliad 1. Mae'r maes hwn yn dal i fod yn faes blaenoriaeth, ac mae ein partneriaid yn y trydydd sector wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn ar gael drwy gyfrwng yr holl sianeli perthnasol, ac maent hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo defnydd ohono.

Yn ogystal, rydym wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar gyfer staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o ofalwyr ifanc ac er mwyn eu cymhwyso'n well i ymateb i ofalwyr ifanc a'u cynorthwyo â'u llesiant a'u haddysg. Caiff yr adnoddau eu cyhoeddi ar y platfform perthnasol a chânt eu rhannu drwy gyfrwng llwybrau addysg a rhwydweithiau rhanddeiliaid perthnasol.

Rydym wedi rhoi helpu i ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes addysg bellach i wella cymorth i ofalwyr sy'n oedolion ifanc. Lanswyd y pecyn hwn ym mis Mehefin 2026.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth newydd Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ymchwilio i ddulliau arloesol o ddod o hyd i ofalwyr 'cudd'. Gallai hyn gynnwys gwell defnydd o ddata a thechnoleg (yn unol ag awgrym y Comisiynydd Pobl Hŷn) i adnabod unigolion a allai fod mewn rolau gofalu (megis y rhai sy'n casglu presgripsiynau'n aml neu'n gwneud apwyntiadau iechyd i eraill) a chynnig gwybodaeth a chyngor, gwasanaeth cyfeirio ac asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhagweithiol ac ar gam cynnar.

Ymateb: Derbyn

Yn rhan o'r gwaith parhaus i ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol yn y dyfodol, a nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 2, byddwn yn ystyried y potensial i ganfod gofalwyr wrth iddynt wneud apwyntiadau gofal iechyd ar ran eraill. Mae cymhlethdodau sylweddol yn gysylltiedig â hyn a byddwn yn cynnal ymholiadau pellach. Mae lleoliadau gofal iechyd yn cynnig cyfleoedd i arddangos gwybodaeth i ofalwyr di-dâl a'u cynorthwyo i hunanadnabod, a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r dull gweithredu hwn.

Mae fferyllfeydd cymunedol yn fannau cyswllt rheolaidd i gleifion, teuluoedd a gofalwyr. Er bod gofalwyr yn casglu meddyginiaethau'n rheolaidd, ni chesglir data ynglŷn â hyn, ac mae gofalwyr yn fwyaf tebygol o gael eu nodi pan ddaw cyfleoedd i staff fferyllfeydd ymgysylltu â gofalwyr a'u cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Rydym wedi ceisio gwella ymwybyddiaeth drwy alluogi staff fferyllfeydd i fanteisio ar fodiwl e-ddysgu yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofalwyr. Mae'r modiwl hwn wedi bod ar gael ers 2025. Hefyd, drwy arddangos negeseuon ar fagiau fferyllfeydd, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 1, bydd modd helpu gofalwyr i hunanadnabod.

Byddwn yn ehangu'r agwedd hon ar yr ymgyrch Ymwybyddiaeth o Ofalwyr y flwyddyn nesaf. Byddwn yn ystyried lleoliadau eraill lle gall gofalwyr gael gafael ar wybodaeth a allai eu helpu i hunanadnabod, ynghyd â chael manylion am ffynonellau cymorth.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth newydd Cymru, fel blaenoriaeth, adolygu'r cynllun gweithredu (dan arweiniad ADSS) ar gyfer cynnal hawliau gofalwyr di-dâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau ei fod:

- yn amlinellu camau gweithredu, llinellau cyfrifoldeb a cherrig milltir clir;
- yn cynnwys camau i wella'r cynnig a'r nifer sy'n manteisio ar asesiadau o anghenion a sicrhau bod gofalwyr yn cael gwasanaethau cymorth amserol;
- yn mynd i'r afael â rhwystrau hysbys, gan gynnwys rhwystrau ieithyddol a diwylliannol; ac
- yn amlinellu sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a sut yr adroddir arno, a dylai sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw fylchau yn y cynllun.

Ymateb: Derbyn

Gallaf gadarnhau fy mod wedi cael adroddiad cynhwysfawr ar y cynllun gweithredu dan arweiniad Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru) yn nodi'r cynnydd hyd yn hyn, ynghyd â chynlluniau manwl ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae grŵp rhanddeiliaid sy'n cynnwys gofalwyr di-dâl, mudiadau'r trydydd sector ac asiantaethau statudol yn goruchwyllo cynnydd y cynllun gweithredu, ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Rwy'n ail-lansio'r Grŵp Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl, a fydd yn darparu trefniadau llywodraethiant ychwanegol ac yn ystyried dyfodol y prosiect o fis Ionawr 2027 ymlaen, pan ddaw'r cyllid cyfredol i ben.

Mae'n hanfodol ein bod yn gallu mesur effaith y gwelliannau i ofalwyr di-dâl, a bydd y ffordd o wneud hyn yn cael ei chadarnhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd ein Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, a gyhoeddir mis Tachwedd, yn sicrhau y canolbwyntir o hyd ar wella ansawdd a chysondeb asesiadau o anghenion gofalwyr a'r wybodaeth gynnar a roddir i ofalwyr di-dâl.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyflwyno safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr. Gallai'r safonau hyn gynnwys:

- pennu'r amseroedd aros hiraf ar gyfer asesiadau gofalwyr;

- y disgwyliadau ar gyfer yr ystod o wasanaethau gofalwyr a ddylai fod ar gael fel isafswm ym mhob rhanbarth (megis gwasanaeth gofalwyr ifanc pwrpasol);
- cynnig rhagweithiol o wybodaeth a chynghor, ac eiriolaeth i'r rhai sydd ei angen; a
- y disgwyliadau o ran cynnwys gofalwyr mewn prosesau cynllunio gofal a phrosesau rhyddhau o'r ysbyty.

Dylid cyflwyno'r safonau hyn law yn llaw â chyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol, a ddylai ddarparu manylion y camau gweithredu i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru lle nad yw safonau gofynnol wedi'u bodloni.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Fel arfer, cyflwynir canllawiau i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ffurf Codau Ymarfer. Mae Codau Ymarfer a Rheoliadau yn gosod gofynion statudol ar awdurdodau lleol. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad manwl o'r ddeddfwriaeth a'r Codau Ymarfer cyfredol er mwyn nodi agweddau ar yr argymhellion a allai fod wedi'u cynnwys eisoes mewn Codau presennol a'r goblygiadau i feysydd eraill o ofal cymdeithasol, os caiff newidiadau eu gwneud i ofynion statudol. Yna, byddwn yn ystyried y camau gweithredu mwyaf priodol. Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr.

Bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu llunio ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2027.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried diweddarau canllawiau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gryfhau'r safonau ar gyfer Asesiadau Anghenion Gofalwyr. Dylai hyn, fan leiaf:

- ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth, cynghor a chymorth ac asesiadau o anghenion gael eu cynnig yn rhagweithiol i bobl a allai fod yn ofalwyr, a'i gwneud yn ofynnol i asesiadau a chynlluniau cymorth gael eu cwblhau mewn modd amserol o fewn cyfnod penodol o amser, gyda chopi ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r gofalwr;
- ymchwilio i'r defnydd o derminoleg amgen (megis "sgwrs am yr hyn sy'n bwysig") i ddisodli'r gair "asesiad," sy'n atal rhai gofalwyr rhag eu mynychu;

- pwysleisio'r angen i'r broses asesu gael ei chynnal gyda'r gofalwr mewn ffordd gydweithredol a pharchus.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd yr adolygiad o'r Codau Ymarfer a'r ddeddfwriaeth gyfredol, a nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 7, yn cynnwys y canllawiau presennol ar Asesiadau Anghenion Gofalwyr. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwnnw, byddwn yn penderfynu ar gamau gweithredu priodol.

Mae'r cynllun gweithredu gwella dan arweiniad ADSS Cymru, y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 6, yn cynnwys gwaith yn ymwneud â therminoleg. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda gofalwyr di-dâl, ac mae hi'n hollbwysig inni ddefnyddio termau cyson a chlr ledled Cymru.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y canllawiau wedi'u diweddarau ar ryddhau pobl o'r ysbyty sydd i'w cyhoeddi yn ddiweddarach eleni:

- yn cadarnhau pwysigrwydd trafodaethau cynnar gyda theuluoedd i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n ddiogel ac effeithiol;
- yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gael mecanwaith ym mhob ysbyty (megis hyrwyddwr gofalwyr dynodedig) i ymgynghori â'r gofalwr cyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty ac, os yw'r gofalwr hwnnw'n dweud nad yw'n gallu darparu gofal, i weithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu cymorth er mwyn gwneud trefniadau gofal amgen;
- yn gofyn am gadarnhad bod y gofalwr yn fodlon ac yn gallu darparu'r gofal angenrheidiol, ac yn rhoi gwybodaeth i'r darpar ofalwr am ei hawliau cyfreithiol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid cylchol gwerth £1 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer hyrwyddo'r arfer o nodi gofalwyr a rhoi cymorth i ofalwyr mewn ysbytai.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty yn nodi pa mor bwysig yw cynnwys gofalwyr o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio sut i ryddhau cleifion. Mae'n ofynnol i wasanaethau iechyd cymunedol gynnig cyswllt penodol ar gyfer ymateb i ymholiadau gan ofalwyr di-dâl, a dylai pob ysbyty fod â mynediad at Wasanaeth Cymorth i Ofalwyr, naill ai drwy gyfrwng staff yr ysbyty neu sefydliad gofalwyr lleol. Disgwylir i staff sy'n rhyddhau cleifion o'r ysbyty wybod sut a phryd i atgyfeirio gofalwyr at gymorth.

Byddwn yn cryfhau'r canllawiau er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ymgynghori'n rhagweithiol gyda gofalwyr di-dâl fel rhan o gynlluniau rheolaidd i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Byddwn yn ysgrifennu at fyrddau iechyd yn gofyn am fanylion am y system sydd ganddynt ar waith ar gyfer sicrhau yr ymgynghorir â gofalwyr cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a byddwn yn ystyried cryfhau mwy fyth ar y canllawiau ar sail yr ymatebion. Wrth ymgynghori â gofalwyr di-dâl, rhaid sicrhau eu bod yn fodlon ac yn gallu darparu'r gofal angenrheidiol, a rhaid i'r staff gydgyssylltu â gwasanaethau partner fel y gellir rhoi cymorth rhyddhau digonol ar waith fel bo'r angen. Dylid cynnal yr ymgynghoriad hwn mewn da bryd cyn i'r claf gael ei ryddhau ac fel rhan o drefniadau cynllunio rheolaidd ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, fel y nodir yng nghanllawiau'r ysbyty ar ryddhau cleifion.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei hategu gan fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cryf, a chynllun gweithredu clir sy'n cysylltu nodau strategol â chanlyniadau mesuradwy.

Ymateb: Derbyn

Bydd y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd, a bydd cynllun cyflawni a strwythur adrodd blynyddol yn cyd-fynd â hi. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn adolygu cynnydd y camau gweithredu drwy ddefnyddio'r dulliau mesur canlyniadau a gynhwysir yn y strategaeth. Bydd Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn goruchwyllo'r modd y rhoddir y strategaeth ar waith, ynghyd â'i chynnydd. Byddwn yn dal ein partneriaid yn gyfrifol ym mhob ffordd bosibl am y modd y rhoddant y strategaeth ar waith ac yn darparu tystiolaeth o'n perfformiad o ran y camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyflwyno gofyniad i bob Gweinidog perthnasol adrodd ar sut mae ei bortffolio yn cyfrannu at gefnogi gofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau bod cyfrifoldeb am ofalwyr di-dâl yn cael ei rannu ar draws y llywodraeth.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen rhyngweinidogol, gan sicrhau y caiff yr holl Weinidogion perthnasol eu cynnwys. Bydd hyn yn hwyluso dull trawslywodraethol gwell ar gyfer ymdrin â gofalwyr di-dâl a bydd yn helpu i nodi

a datrys rhai rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl. Bydd gwaith y grŵp hefyd yn cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol.

Argymhelliad 12

O ystyried y diffyg cynnydd tra hysbys ers peth amser gyda gwasanaethau i ofalwyr di-dâl, credwn fod goruchwyliaeth allanol yn hanfodol. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymrwymo i ddarparu datganiad blynyddol i'r Senedd ar y cynnydd o ran cyflawni canlyniadau allweddol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Gofalwyr. Dylai'r datganiadau hyn:

- fanylu ar welliannau mewn meysydd gan gynnwys cyfraddau Asesiadau Gofalwyr, gofal seibiant, a chymorth i ofalwyr ifanc; ac
- amlinellu unrhyw gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd os bydd y cynnydd yn anfoddhaol.

Ymateb: Derbynn

Byddwn yn gwneud datganiad blynyddol i'r Senedd. Bydd y datganiad hwn yn cyd-fynd â chyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y strategaeth ar gyfer gofalwyr a bydd yn nodi'r cynnydd o ran y cynllun cyflawni a'r strategaeth genedlaethol. Hefyd, bydd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am ein hymateb i'r argymhellion hyn a bydd yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ystyried canlyniadau i ofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc. Bydd y datganiad blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2027. Pan fydd angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach, byddwn yn nodi ein bwriadau.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Arolygiaeth Gofal Cymru i integreiddio gwiriadau cydymffurfiaeth parhaus ar gymorth i ofalwyr a dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â gofalwyr di-dâl yn eu gwaith arolygu a monitro rheolaidd ar awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbynn

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru eisoes yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at ofalwyr di-dâl drwy gyfrwng ei gweithgarwch arolygu, sicrhau a goruchwyllo, yn cynnwys ystyried pa mor effeithiol mae awdurdodau lleol yn nodi, yn asesu ac yn cynorthwyo gofalwyr di-dâl, a'r modd y caiff profiadau a chanlyniadau gofalwyr eu hadlewyrchu'n ymarferol. Caiff gwybodaeth a gesglir drwy gyfrwng gweithgarwch arolygu, ymgysylltu ag arweinwyr awdurdodau lleol, a gwaith sicrhau ehangach, ei

rhannu â Llywodraeth Cymru er mwyn ategu goruchwyliaeth a gwelliannau. Bydd Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn faes allweddol mewn gweithgarwch sicrwydd ac arolygu parhaus.

Argymhelliad 14

Yn dilyn y ffaith i'r Gweinidog gytuno ag Arolygiaeth Gofal Cymru y bydd eu cyfarfodydd sicrwydd chwemisol nesaf gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (sydd i'w cynnal ym mis Ebrill 2026) yn cynnwys cymorth i ofalwyr di-dâl fel pwnc trafod allweddol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ysgrifennu at y pwyllgor a fydd yn ein holynu o fewn chwe mis er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r cyfarfodydd hynny a manylion y camau nesaf y cytunwyd arnynt.

Ymateb: Derbyn

Caiff cymorth i ofalwyr di-dâl ei ystyried drwy gyfrwng gweithgarwch arolygu, sicrhau ac ymgysylltu Arolygiaeth Gofal Cymru, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 13. Yng nghyfarfodydd sicrhau Arolygiaeth Gofal Cymru, a gynhaliwyd yn ystod mis Ebrill-Mehefin 2026, cynhwyswyd cymorth i ofalwyr di-dâl fel llwybr ymholi mwy penodol. Mae gwybodaeth a gasglwyd drwy gyfrwng y trafodaethau hyn, ochr yn ochr â chanfyddiadau arolygu a gwybodaeth ehangach, yn cyfrannu at asesiad parhaus Arolygiaeth Gofal Cymru o berfformiad awdurdodau lleol, gan gynnig tystiolaeth werthfawr i ategu goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o bolisiau gofalwyr di-dâl a'r modd y rhoddir y polisiau hynny ar waith. Bydd y cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal yn ystod mis Medi-Tachwedd 2026. Byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor ym mis Ionawr 2027. Yn sgil hyn, bydd modd adlewyrchu gwybodaeth gynhwysfawr yn ein hymateb. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth berthnasol a sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn parhau i fod â lle amlwg yng ngweithgarwch sicrhau a gwella awdurdodau lleol.

Argymhelliad 15

Fel rhan o waith trawslywodraethol, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried creu cynllun cymhorthion ac addasiadau cartref cyflym i ofalwyr di-dâl ar gyfer cymhorthion ac addasiadau cartref hanfodol a nodir fel rhan o asesiad o anghenion.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae adran 34 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod cymhorthion ac addasiadau'n ffordd o ddiwallu anghenion unigolion.

Mae Rhaglen Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru yn darparu addasiadau bach yn gyflym drwy ddefnyddio amryfal ddarparwyr ledled Cymru. Fel arfer, darperir yr addasiadau drwy gyfrwng asesiad a threfniadau cynllunio gofal a chymorth i'r unigolyn sy'n cael gofal, yn hytrach nag ar ffurf hawliad ar wahân i'r gofalwr. Ond dylai asesiadau gofalwyr ystyried yr effaith a gaiff cyfrifoldebau gofalu arnynt, ac efallai y pennir bod angen cyfarpar neu addasiadau ar gyfer ategu'r rôl ofalu, lleihau risgiau a helpu i atal y trefniant gofalu rhag chwalu.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae adran 23 yn nodi mai'r meddiannydd yn unig sydd â hawl i gael cymorth o'r fath.

Mae rhaglenni addasiadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion asessedig pobl anabl/hŷn er mwyn eu galluogi i fyw'n annibynnol yn ddiogel, yn hytrach na chanolbwyntio ar anghenion y gofalwr di-dâl.

Byddwn yn mynd i'r afael â gwaith archwiliadol i ystyried natur unrhyw anghenion nas diwallwyd, ynghyd ag i ba raddau y mae gwasanaethau addasu presennol eisoes yn gallu mynd i'r afael â'r amgylchiadau hyn, a pha un a oes tystiolaeth ar gael ynglŷn â bwlch penodol yn y ddarpariaeth – sef bwlch na ellir ei lenwi drwy gyfrwng trefniadau cyfredol. Bydd hyn yn llywio unrhyw ystyriaethau ynghylch cynllun pwrpasol ar wahân i ofalwyr di-dâl.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth newydd Cymru weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sefydlu system ffurfiol i sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth amserol ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant meddyliol. Dylai hyn gynnwys cynnig apwyntiadau hyblyg ac archwiliadau iechyd rheolaidd i'r rhai y nodir eu bod yn ofalwyr di-dâl (yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal dwyster uchel), yn ogystal â chyfeirio at grwpiau cymorth cyfoedion neu gymorth iechyd meddwl arall.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd, awdurdodau lleol a chlystyrau gofal sylfaenol i ystyried cyfleoedd i gryfhau cymorth i ofalwyr di-dâl a gwella mynediad at ofal a thriniaeth amserol yn eu cymunedau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gall y gwasanaethau nodi, cynorthwyo a chyfeirio gofalwyr yn well, yn ogystal â'r camau ychwanegol y gall fod angen eu cymryd i wella cysondeb y ddarpariaeth ledled Cymru.

Argymhelliad 17

Rhaid i ofalwyr gael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth mewn strategaethau a chynlluniau gweithredu iechyd meddwl ac atal hunanladdiad. Dylai Llywodraeth newydd Cymru adrodd ar sut y mae'n mynd i'r afael â'r risg uwch o hunanladdiad ymhlith gofalwyr, gan gynnwys yn y cynllun gweithredu arfaethedig ar atal hunanladdiad.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym wedi gofyn a oes modd i'r gwaith gwella cenedlaethol cyfredol mewn perthynas â gwybodaeth a chynghor i ofalwyr di-dâl ac asesiadau o anghenion gofalwyr nodi bod angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o risg hunanladdiad, ac a oes modd i hyn gael ei ystyried gan ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr yn unol â Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru.

Byddwn yn cynnwys y risg o hunanladdiad i ofalwyr yn y modiwl e-ddysgu ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, fel yr amlinellir yn ein hymateb i Argymhelliad 1. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector i fwrw ymlaen â hyn.

Mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Llywodraeth Cymru yn sôn am drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn iddynt allu darparu mynediad yr un diwrnod at gymorth i bawb, yn cynnwys gofalwyr.

Caiff camau gweithredu penodol ar gyfer atal hunanladdiad eu llywio gan y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, yn cynnwys Gwyladwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig a'n Canolfan Genedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Mae'r dystiolaeth hon yn helpu i bennu ffactorau allweddol sy'n cynyddu risg hunanladdiad a hunan-niweidio fel y gellir targedu camau gweithredu, cymorth ac ymyriadau. Cydnabyddwn fod cyfrifoldebau gofalu yn ffactor risg ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio.

Byddwn yn parhau i weithio ledled Llywodraeth Cymru i godi mwy o ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ym maes iechyd meddwl ac atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Bydd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhyngweinidogol ar gyfer gofalwyr di-dâl, y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 11 yn helpu i ganolbwyntio'n barhaus ar iechyd meddwl gofalwyr ac atal hunanladdiad.

Argymhelliad 18

Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau, drwy eu gwasanaethau seibiant a gofal cartref, y gall gofalwyr ddiwallu eu hanghenion iechyd eu hunain. Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu gwasanaeth rhyddhau neu wasanaeth eistedd i ofalwyr fel y gallant fynychu apwyntiadau meddygol. Dylai Llywodraeth

Cymru fonitro darpariaeth y gwasanaethau hyn, a dylai ystyried cyhoeddi canllawiau cenedlaethol i sicrhau bod gofal amgen ar gyfer iechyd gofalwyr yn gynnig safonol ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu seibiannau, a nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 23, byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol gadarnhau eu trefniadau ar gyfer gwasanaeth rhyddhau neu 'eistedd'.

Hefyd, byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer monitro darpariaeth y gwasanaethau hyn ynghyd â mesurau eraill a all roi mwy o sicrwydd y bydd modd i ofalwyr gael mwy o gymorth i fynd i apwyntiadau gofal iechyd fel bo'r angen.

Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth newydd Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar ddarparu Tâl Atodol i Ofalwyr sy'n benodol i Gymru neu gymorth ariannol uniongyrchol arall i ofalwyr, a chyhoeddi ei chanfyddiadau. Dylai wneud hyn o fewn y 12 mis nesaf.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi gofyn i swyddogion ystyried opsiynau a thâl atodol, a llunio adroddiadau perthnasol am y pwnc. Bydd y gwaith hwn yn ystyried meini prawf cymhwysra, y gost amcangyfrifedig a'r opsiynau cyflawni, a hefyd bydd yn asesu'r effeithiau. Rhaid inni ystyried yn ofalus pa mor fforddiadwy yw tâl rheolaidd yng nghyd-destun y pwysau sydd ar gyllidebau. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau erbyn mis Mai 2027.

Argymhelliad 20

Yn y tymor byrrach, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried gweithredu taliadau cymorth untro ychwanegol i ofalwyr di-dâl sydd fwyaf mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd ac argyfwng ariannol (er enghraifft, drwy efelychu ac ehangu'r fenter taliadau £500 i ofalwyr). Dylid rhoi cyhoeddusrwydd da i daliadau o'r fath a'u rhoi i bobl yn awtomatig lle bo modd er mwyn osgoi niferoedd bach o bobl yn manteisio arnynt oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu rwystrau gweinyddol.

Ymateb: Derbyn

Yn ychwanegol at yr adroddiad a luniwyd mewn ymateb i Argymhelliad 19, byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir rhoi taliad untro i ofalwyr di-dâl sy'n wynebu'r pwysau ariannol mwyaf, a hefyd byddwn yn asesu'r effaith a'r gost a

pha mor fforddiadwy yw taliad o'r fath. Ymhellach, byddwn yn ystyried opsiynau eraill a all leihau'r pwysau ariannol ar ofalwyr. Bydd modd inni lunio adroddiad am hyn erbyn mis Rhagfyr 2026.

Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cynyddu'r cyllid blyneddol ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr mewn ymateb i'r dystiolaeth glir o angen ymhlith gofalwyr, ac ymrwymo i hyrwyddo'r Gronfa'n rhagweithiol fel bod mwy o ofalwyr mewn angen yn ymwybodol ohoni.

Ymateb: Derbyn

Yn rhan o'r gwaith a nodir yn ein hymateb i Argymhellion 19 a 20, byddwn yn ystyried y mater hwn, gan gynnwys pa mor fforddiadwy yw cynyddu'r cyllid a roddwn i'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr ac opsiynau eraill a all fod ar gael inni. Byddwn yn llunio adroddiad am hyn erbyn mis Rhagfyr 2026. Byddwn yn cynnwys trosolwg o'r ffordd y caiff y Gronfa ei thargedu a'i hyrwyddo, a sut y mae'n canolbwyntio fwyfwy ar roi gwybodaeth i ofalwyr a'u cynorthwyo i gael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo, a all gael effaith mwy parhaol.

Argymhelliad 22

Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth pan fydd yn datblygu ymyriadau gwrthdlodi yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Tlodi Plant newydd, gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan amrywiaeth o grwpiau, yn cynnwys gofalwyr di-dâl y mae eu hanghenion parhaus wedi'u hystyried ac y gwyddys fod tlodi'n gallu effeithio'n anghymesur arnynt. Mae Siarter Budd-daliadau Cymru, a gyhoeddwyd yn 2024, yn cynnwys ymrwymïadau i sicrhau bod Budd-daliadau Cymru yn diwallu anghenion grwpiau a ymleiddiwyd a grwpiau dan anfantais sy'n wynebu risg uwch o ddioddef tlodi; mae'r grwpiau hyn yn cynnwys gofalwyr di-dâl. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i'r siarter, ac rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i roi'r ymrwymïadau hyn ar waith yn llwyddiannus.

Mae ymgyrch ar waith gan Lywodraeth Cymru i annog pobl anabl a'u gofalwyr i droi at Advicelink Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael.

Argymhelliad 23

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ddatblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i ehangu a gwella'r ddarpariaeth gofal seibiant i ofalwyr di-dâl. Dylai hyn:

- gynnwys safonau gofynnol ar gyfer darparu gofal seibiant a gofal amgen ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal dros nos a gofal brys;
- monitro'r ddarpariaeth yn erbyn y safonau gofynnol hynny; a
- cyhoeddi'r canfyddiadau'n flynyddol, ynghyd â manylion y camau y bydd yn eu cymryd os bydd unrhyw awdurdod lleol yn methu'n gyson â darparu'r lefel ofynnol o ofal seibiant.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod bod mynediad at seibiant priodol a digonol yn fater hollbwysig i nifer o ofalwyr di-dâl. Byddwn yn mynd i'r afael â gwaith archwiliadol trylwyr gyda rhanddeiliaid i lunio cynllun gweithredu. Bydd hyn yn adeiladu ar y ddeialog bresennol gydag awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a bydd yn ystyried y manteision posibl sy'n perthyn i gael gofynion statudol ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ansawdd a dibynadwyedd y data ar seibiant a ddarperir gan awdurdodau lleol. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl a'i adlewyrchu yn y Strategaeth Genedlaethol newydd.

Mae'r Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn cynnwys eitem ddata ynghylch a yw unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth gan awdurdod lleol ac sydd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth yn derbyn seibiant ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd y [cyhoeddiad diweddaraf](#) ar 17 Mehefin 2026 ac mae'n cynnwys data ar gyfer 2024/25.

Bydd y Cyfrifiad Gofalwyr di-dâl yn cofnodi'r rhai lle mae angen seibiant wedi'i nodi o asesiad y gofalwr ac fe'i hamlinellir mewn cynllun cymorth.

Byddwn yn ystyried y potensial i ddatblygu data o'r fath yn bellach, ac yna gellid ei gyhoeddi. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo gofalwyr di-dâl – yn cynnwys cynnig darpariaeth seibiant – yn eu gweithgareddau arolygu a sicrhau.

Argymhelliad 24

Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd mewn gwasanaethau cymorth i ofalwyr, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried newid i drefniadau ariannu amlflwyddyn ar gyfer y trydydd sector ac awdurdodau lleol, yn debyg i'r ymrwymïadau ariannu amlflwyddyn ar gyfer rhaglenni pwysig fel y Cynllun Seibiannau Byr a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr. Lle bo modd, dylai annog a galluogi Byrddau Partneriaeth

Rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynnig contractau tair i bum mlynedd ar gyfer gwasanaethau allweddol i ofalwyr, a dylai'r Llywodraeth ei hun geisio cyhoeddi cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr yn gynnar yn y flwyddyn ariannol er mwyn helpu'r trydydd sector i gynllunio, a recriwtio a chadw staff.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn hyrwyddo trefniadau ariannu tymor hwy sy'n hybu canlyniadau gwell, sefydlogrwydd gwasanaethau, gwaith cynllunio effeithiol a chadw staff drwy gynllun Llywodraeth Cymru sef Cynllun y Trydydd Sector: Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Mae'r Cod yn gymwys i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n darparu cyllid i sefydliadau'r trydydd sector drwy gyfrwng grantiau, contractau neu drefniadau cyllido eraill. Mae ein Cynllun Seibiannau Byr a'n Cronfa Gymorth i Ofalwyr eisoes yn gronfeydd aml-flwyddyn. Bwriad 5% o'r buddsoddiad blyneddol gwerth £147 miliwn yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol aml-flwyddyn yw helpu gofalwyr di-dâl. Wrth ystyried opsiynau ar gyfer cyfeiriad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol, ar ôl mis Mawrth 2027, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau trefniadau ariannu tymor hwy i ategu datrysiadau cynaliadwy ar gyfer y gweithlu.

I ategu'r ffynonellau hyn o gyllid, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal cynllun aml-flwyddyn ar gyfer grantiau gofal cymdeithasol yn y trydydd sector. Mae ein swyddogion wrthi'n ystyried opsiynau i atgyfnerthu effaith y buddsoddiad hwn, hybu blaenoriaethau cenedlaethol ac adeiladu ar gryfderau'r trydydd sector. Rhaid i drefniadau yn y dyfodol fod yn gadarn, yn fforddiadwy, yn dryloyw ac yn sefydlog, gan alluogi sefydliadau i ymateb i heriau yn y dyfodol wrth hefyd barhau i gefnogi polisi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl ledled Cymru. Cyhoeddir y trefniadau hyn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Argymhelliad 25

Dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried clustnodi'r cyllid a ddarperir ar gyfer gwasanaethau seibiant a chymorth i ofalwyr.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i wario 5% o'r gronfa flynyddol (gwerth £147 miliwn) ar wasanaethau i ofalwyr. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio'r cyllid hwn, ynghyd â chyllid gan y Grant Cynnal Refeniw, i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr, yn cynnwys seibiant. Fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 24, rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer cyfeiriad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol, a byddwn yn ystyried y gofynion cyfredol ar gyfer cyllido gwasanaethau gofalwyr fel rhan o'r adolygiad hwn.

Rydym wedi parhau i roi cyllid cylchol o £1 miliwn i fyrddau iechyd, a chaiff yr arian hwn ei glustnodi ar gyfer rhoi cymorth i ofalwyr mewn ysbytai. Mae arian Cynllun Seibiant Byr Llywodraeth Cymru (sef £3.5 miliwn yn flynyddol) ac arian y Gronfa Gymorth i Ofalwyr (sef £1.75 miliwn yn flynyddol) yn gyllid penodedig.

Argymhelliad 26

Dylai Llywodraeth newydd Cymru wella tryloywder ac atebolrwydd drwy ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyllid a pherfformiad gofalwyr, gan fanylu ar faint o gyllid sy'n cael ei wario ar wasanaethau gofalwyr yn y rhanbarth, o ba ffynhonnell y daw, a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno diweddariad am y cymorth a roddir i ofalwyr drwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel rhan o'r gwaith o sefydlu system flynyddol ar gyfer monitro ac adrodd am berfformiad.

Byddwn yn ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn archwilio trefniadau adrodd gwell drwy gyfrwng prosesau cyfredol. Bydd yn briodol ystyried hyn ar ôl cyhoeddi cyllid olynol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac ar ôl cwblhau'r adolygiad cyfredol o statws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae sefydlu gofynion adrodd ffurfiol a mwy yn debygol o arwain at ddiwygio Codau Ymarfer a rheoliadau cyfredol, a byddwn yn ystyried y rhinweddau sy'n perthyn i hyn.

Argymhelliad 27

Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i wella'r ffordd y maent yn ymgysylltu â gofalwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol, gyda'r nod o gydgyhyrchu gwasanaethau seibiant sy'n ddiwylliannol sensitif ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau amrywiol o ofalwyr. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r cynnydd yn hyn o beth.

Ymateb: Derbyn

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ddyletswydd i gynnal Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth er mwyn llywio gwaith comisiynu a Chynlluniau Ardal Rhanbarthol. Mae'n ofynnol i asiantaethau partner ystyried amrywiaeth cymunedau lleol a sicrhau bod y gwasanaethau'n ystyriol o ddiwylliant ac yn ymatebol i'r cymunedau hynny. Mae cydgynhyrchu yn un o egwyddorion sylfaenol Deddf 2014, ac mae'n elfen ddisgwyliedig ym methodoleg yr Asesiadau

o Anghenion y Boblogaeth. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth (2024) yn disgwyl i gomisiynwyr gynnwys dinasyddion a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau comisiynu ac wrth lunio gwasanaethau ar y cyd.

Byddwn yn gofyn i Arolygiaeth Gofal Cymru ystyried cynnwys gofalwyr yn ei gwaith goruchwyllo, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 13. Byddwn yn cynnwys yr arfer o gydgynhyrchu a darparu gwasanaethau seibiant diwylliannol sensitif fel maes ffocws yn ein gwaith gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn gallu datblygu cynllun gweithredu seibiant, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 23.

Argymhelliad 28

Dylid cydgynhyrchu cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl gyda gofalwyr di-dâl ar bob lefel – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. I'r perwyl hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol newydd gryfhau llais gofalwyr di-dâl yn y broses o wneud penderfyniadau a gwella eu cynrychiolaeth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. I'r perwyl hwn, dylid annog nifer o gynrychiolwyr gofalwyr ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu cymorth gwell i gynrychiolwyr gofalwyr, gan gynnwys hyfforddiant, tâl cydnabyddiaeth a gofal amgen lle y bo'n briodol, er mwyn galluogi gofalwyr i gael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon, a mynychu a chymryd rhan lawn, mewn cyfarfodydd. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymrwymo i barhau i ariannu'r trydydd sector i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Ymateb: Derbynn

Caiff gofalwyr di-dâl eu cynrychioli ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Gofalwyr Cymru i gynorthwyo cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl. Byddwn yn ystyried y lefel gyfranogi gyfredol, ynghyd â lefel gyfredol y gynrychiolaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o'n hadolygiad ehangach, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 26. Byddwn yn pennu cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau ar gyfer cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl, pan fo angen gwneud hynny. Byddwn yn parhau i roi arian i'r trydydd sector ar gyfer cynorthwyo cynrychiolwyr gofalwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn ein hymateb i Argymhelliad 27, nodir dyletswyddau mewn perthynas â rhoi dull cydgynhyrchu ar waith wrth gynllunio a llunio gwasanaethau.

Rydym yn ail-lansio Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl a byddwn yn cryfhau cynrychiolaeth gofalwyr di-dâl o gymharu â'r strwythur blaenorol.

Byddwn yn sicrhau y caiff gofalwyr di-dâl eu cynrychioli yn y gweithgorau rhanddeiliaid o dan fframwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn parhau.

Argymhelliad 29

Dylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau i staff ysgolion ynglŷn â gofalwyr ifanc yn cael eu datblygu a'u darparu, a'u cydgynhyrchu gan ofalwyr ifanc.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 4, rydym wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu cyfres o adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i gynorthwyo gofalwyr ifanc mewn ysgolion. Mae'r adnoddau'n cynnwys cynlluniau gwersi, gweithgareddau taflenni gwaith, taflenni ffeithiau a hyfforddiant i'r staff ar gyfer cynorthwyo gofalwyr ifanc gyda'u llesiant a'u haddysg. Cydgynhyrchwyd yr adnoddau gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac 11 o awdurdodau lleol.

Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Medr i ddatblygu pecyn cymorth ymarferol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn addysg bellach. Lansiodd yr adnodd ym mis Mehefin 2026, ac mae'n galluogi colegau addysg bellach i wella'r cymorth a roddant i ofalwyr sy'n oedolion ifanc.

Rydym wedi comisiynu Dysgu i ddatblygu pecyn dysgu proffesiynol tair blynedd (2026-29) i gynorthwyo athrawon a staff eraill mewn ysgolion i roi ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar waith. Bydd y pecyn hwn yn rhoi arweiniad penodol i ymarferwyr ar sut i gynorthwyo dysgwyr sydd wedi mynd drwy drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod y gellir eu cysylltu â nodweddion gwarchodedig penodol, yn cynnwys gofalwyr ifanc.

Fel rhan o'n rhaglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, mae canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn Addysg Uwch wrthi'n cael eu diwygio gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch. Bwriedir lansio'r canllawiau hyn ym mis Mawrth 2027.

Argymhelliad 30

Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog pob ysgol a choleg yng Nghymru i benodi hyrwyddwr gofalwyr ifanc neu aelod arweiniol o staff â chyfrifoldeb dros ofalwyr ifanc. Dylai Llywodraeth newydd Cymru ymchwilio i ymgorffori addysg am ofalwyr ifanc mewn rhaglenni neu fframweithiau llesiant, fel bod pob myfyriwr a staff yn ymwybodol o beth yw gofalwyr ifanc a sut i gael cymorth iddynt.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Byddwn yn ystyried yr ysgogiadau sydd ar gael i annog ysgolion a cholegau i fod ag arweinydd ar gyfer gofalwyr ifanc, gan gydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i orchymyn ysgolion yn y mater hwn. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys gofalwyr ifanc, i bennu a rhannu arferion gorau ynghyd ag ystyried a dosbarthu tystiolaeth yn ymwneud ag effaith y dull hwn. Wrth i'n dealltwriaeth o'r data presennol mewn perthynas â gofalwyr ifanc ddatblygu, ac wrth inni sefydlu dull hirdymor ar gyfer casglu data, byddwn yn rhannu tystiolaeth ein gwaith ymchwil graddol er mwyn dylanwadu ar y modd y datblygir polisiau ar gyfer gofalwyr ifanc mewn addysg yn y dyfodol.

Argymhelliad 31

Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru sicrhau bod hawliau gofalwyr ifanc yn cael eu cynnal yn llawn ac nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc yn gorfod darparu lefelau amhriodol o ofal. Dylai Llywodraeth newydd Cymru gyhoeddi canllawiau newydd sy'n pwysleisio bod gan ofalwyr ifanc hawl i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu gormodol neu amhriodol, ac sy'n amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion, a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gefnogi gofalwyr ifanc yn unol â hynny.

Ymateb: Derbyn

Yn yr adolygiad o Godau Ymarfer a deddfwriaeth gyfredol, a nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 7, cynhwysir y gwaith o ystyried canllawiau ar ofalwyr ifanc. Mae'r strategaeth newydd yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol yn ymwneud â'u cyfrifoldeb dros sefydlu nad yw gofalwyr ifanc yn darparu lefelau amhriodol o ofal.

Rydym wedi llofnodi'r Cyfamod Gofalwyr Ifanc ar ran Gweinidogion Cymru. Un o brif egwyddorion y ddogfen hon yw sicrhau nad yw gofalwyr ifanc yn ysgwyddo dyletswyddau a chyfrifoldebau gofalu amhriodol. Ystyriwn fod hyn yn flaenoriaeth i'n gofalwyr ifanc; ac wrth inni aros am ganlyniad yr adolygiad, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag Arweinwyr Cynghorau i dynnu eu sylw at eu cyfrifoldebau.

Argymhelliad 32

Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru gyflymu'r gwaith o weithredu'n llawn yr argymhellion ynghylch data am ofalwyr ifanc a wnaed gan Estyn yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2019.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Iechyd, Llesiant a Bywyd ysgol gofalwyr ifanc yng Nghymru: canfyddiadau gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion \(SHRN\)](#), gan ddarparu'r dadansoddiad cenedlaethol

cyntaf ar raddfa fawr o brofiadau gofalwyr ifanc mewn addysg. Mae'r cyhoeddiad yn cynrychioli cam cyntaf dull cynlluniedig tri cham ar gyfer gwella dealltwriaeth o ofalwyr ifanc mewn addysg, sy'n cynnwys dadansoddiad o setiau data sydd ar gael, systemau cysylltu data, ac ystyriaeth o'r modd y gallai tystiolaeth a ddaw i'r amlwg lywio dealltwriaeth a meysydd y gellir eu gwella yn y dyfodol.

Mae Cam 2 a Cham 3 y gwaith hwn bellach ar droed. Bydd Cam 2 yn defnyddio systemau cysylltu data dienw a diogel yn y banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) i ddadansoddi deilliannau addysgol gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth o ddeilliannau, yn cynnwys presenoldeb, cyrhaeddiad a gwaharddiadau, a bydd yn cynnig tystiolaeth yn ymwneud ag ansawdd data, cwmpas a bylchau. Bydd Cam 3 yn archwilio dulliau tymor hwy ar gyfer gwella'r modd y cesglir data am ofalwyr ifanc mewn addysg, yn cynnwys ystyried pa mor ymarferol fyddai cofnodi statws gofalwyr ifanc drwy gyfrwng dulliau presennol ar gyfer casglu data, a pha un a ddylid cynnwys cwestiynau am ofalwyr ifanc fel agwedd safonol ar gylchoedd arolygu yn y dyfodol. Bydd gwaith ymgysylltu gydag ysgolion, ymarferwyr, rhieni a dysgwyr yn llywio'r gwaith hwn.

Bwriedir i'r dull graddol hwn wneud defnydd effeithiol o ffynonellau data sy'n bodoli eisoes, gan osgoi rhoi baich adrodd ychwanegol ar ysgolion ar hyn o bryd.

Argymhelliad 33

Dylai Llywodraeth Cymru nodi cyllid ychwanegol o fewn cyllidebau perthnasol Llywodraeth Cymru, a hynny ar fyrder, er mwyn darparu cymorth uniongyrchol i gyflawni cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn llawn ar draws pob awdurdod lleol. Dylai fonitro canlyniadau'r camau gweithredu hyn.

Ymateb: Derbyn

Cafodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru £110,000 ym mis Mawrth 2026 i arwain prosiect Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc. Bydd yr arian yn ei gwneud yn bosibl i roi grantiau penodol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu gweithredoli eu cynllun cardiau adnabod. Ar hyn o bryd, mae canllawiau'n cael eu cydgyhyrchu gydag awdurdodau lleol ac mae digwyddiad dysgu wedi'i drefnu i hyrwyddo'r cynllun cardiau adnabod ledled awdurdodau lleol.

Argymhelliad 34

Dylai Llywodraeth newydd Cymru annog awdurdodau lleol yn gryf i gynyddu'r defnydd o'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc a dylai gyhoeddi data blynyddol ar nifer y cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gyhoeddwyd gan bob awdurdod lleol er mwyn olrhain y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi darparu cyllid pwrpasol ac rydym wedi ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i arwain prosiect gwella, fel y nodir yn ein hymateb i Argymhelliad 33. Fel rhan o hyn, byddwn yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â'r potensial i dderbyn data. Dylid nodi mai cynlluniau annibynnol gan awdurdodau lleol yw'r rhain ac nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w gorfodi i adrodd am ddata.

Argymhelliad 35

Cyn cyhoeddi'r set ddata genedlaethol newydd ar ofalwyr di-dâl ym mis Ebrill 2027, dylai Llywodraeth newydd Cymru ystyried cyhoeddi adroddiad data interim sy'n dwyn ynghyd ddata presennol ar ddangosyddion allweddol, gan gynnwys nifer y gofalwyr a nodwyd; nifer yr asesiadau a gynigiwyd ac a gwblhawyd; amseroedd aros ar gyfer asesiadau a chynlluniau cymorth i ofalwyr; y mathau o gymorth a ddarperir; a nifer y gofalwyr sy'n cael seibiannau. Dylai anelu at wneud hyn cyn diwedd 2026.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn darparu adroddiad data interim ar ofalwyr di-dâl erbyn mis Ebrill 2027. Caiff llawer o eitemau data eu casglu yn adran Gofalwyr y [Fframwaith Perfformiad a Gwella](#) blynyddol. Mae'r rhain yn cwmpasu gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc: gofalwyr sy'n ceisio cymorth, asesiadau gofalwyr a gwblhawyd a nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr. Cyhoeddwyd y [fersiwn ddiweddaraf](#) ar 7 Ebrill 2026, ac roedd yn cynnwys data ar gyfer 2024/25.

Mae'r Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn cynnwys eitem ddata sy'n nodi a oes gan unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth gan awdurdod lleol, ac sydd â chynllun gofal a chymorth ar y 31 Mawrth, ofalwr sy'n hysbys i'r awdurdod lleol. Cyhoeddwyd y [fersiwn ddiweddaraf](#) ar 17 Mehefin 2026, ac roedd yn cynnwys data ar gyfer 2024/25.

Gallai adroddiad data gyfeirio hefyd at [lechyd, llesiant a bywyd ysgol gofalwyr ifanc yng Nghymru: canfyddiadau gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#), gan ddarparu'r dadansoddiad cyntaf ar raddfa fawr o brofiadau gofalwyr ifanc mewn addysg. Disgwyliwn gyhoeddi data sy'n deillio o Gam 2 y gwaith ymchwil, y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 32, yn ystod 2027.

Bydd y Cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl yn darparu ffynhonnell wybodaeth bwrpasol am ofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n cael asesiad gofalwyr. Newidiwyd yr amserlen weithredu er mwyn adlewyrchu ystyriaethau presennol o ran capasiti a disgwyllir i'r cyhoeddiad cyntaf gael ei gyhoeddi yn y gwanwyn yn 2028.